**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 08-02(p5)**

**Dyddiad:** **8 Mai 2002**
**Amser:** **14.00 - 17.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Adroddiad Interim Drafft ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd Croeso Cymru**

## Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar Adroddiad Interim drafft yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd Croeso Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn datgan y dylai'r pwyllgorau pwnc adolygu'n rheolaidd sut y mae'r cyrff cyhoeddus yn eu meysydd yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus. Ar ôl derbyn fersiwn terfynol yr Adroddiad Interim a sylwadau'r Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn mynegi barn ar brif ganfyddiadau'r Adroddiad. Byddant yn penderfynu a ddylai'r Adolygiad symud ymlaen i'r ail gam, ac a ddylid newid y Cylch Gorchwyl.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn cyflwyno sylwadau am ganfyddiadau'r Adroddiad Interim drafft sydd i'w weld yn Atodiad A, ac ynghylch a oes angen diwygio'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr ail gam (Atodiad 1 i'r Adroddiad).

## Y Cefndir

3. Cafodd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd Croeso Cymru ei gomisiynu'n ffurfiol gan Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Gorffennaf 2001, ar ôl iddynt ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gorchwyl. Cynhelir yr adolygiad gan Jonathan Price, aelod o staff y Cynulliad sy'n gweithio am gyfnod gyda'r Grp Cyllid, ac mae ei Adroddiad Interim yn cynnwys cam cyntaf yr Adolygiad. Mae'r cam hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol:

> "Yng ngoleuni dyletswyddau statudol Bwrdd Croeso Cymru fel y'u nodwyd yn Neddfau Twristiaeth 1969 ac 1992, amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac enghreifftiau o arferion da mewn mannau eraill yn y DU neu'r UE, a oes angen i Fwrdd Croeso Cymru barhau i ymgymryd â'i holl swyddogaethau, ac os felly, ai'r fframwaith drefniadol bresennol yw'r un mwyaf priodol?"

4. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod adroddiad drafft yr adolygydd cyn y caiff fersiwn terfynol yr Adroddiad Interim, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor, eu cyflwyno i'r Gweinidogion. Bydd rhan nesaf yr Adolygiad yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, gan gynnwys effeithiolrwydd strategol y Bwrdd a sut y mae'n mynd ati i lywodraethu'n gorfforaethol. Yn ystod yr ail gam hwn edrychir ar faterion megis effeithlonrwydd gweithredol. Caiff canfyddiadau'r ail gwm hwn eu nodi yn yr Adroddiad Terfynol.

## Yr Adroddiad Interim

5. Amgaeir yr Adroddiad Interim Drafft yn Atodiad A. Mae'n nodi canfyddiadau'r adolygydd yn dilyn ymgynghoriad pellgyrhaeddol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, yn ogystal â chyda'r Bwrdd ei hun. Mae'r crynodeb gweithredol (tt 3-9) yn nodi canfyddiadau'r Adroddiad. Y prid gasgliad yw bod angen y swyddogaethau y mae'r Bwrdd yn eu cyflawni o hyd, ac y dylai'r swyddogaethau hynny barhau i gael eu cyflawni gan Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Serch hynny, gwneir nifer o argymhellion ynghylch newid y modd y caiff y swyddogaethau hynny eu cyflawni, ac ynghylch datblygu'r dystiolaeth sy'n sail i weithgareddau'r Bwrdd.

## Cydymffurfio

6. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cyfrannu at yr Adolygiad, ac ymgynghorwyd ag ef ynghylch unrhyw faterion ffeithiol.

## Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

7. Gofynnir i'r Pwyllgor fynegi barn am yr Adroddiad Interim drafft, ac ar y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad.

## Cyswllt

8. Yr Is-adran Cynllunio Ariannol